O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 1756 (Cy. 174)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 17, Morfa Conwy i Gyffordd 19, Llansanffraid Glan Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym* | *22 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

## Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Gorffennaf 2013 , a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 17, Morfa Conwy i Gyffordd 19, Llansanffraid Glan Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 22 Gorffennaf 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 17, Morfa Conwy a Chyffordd 19, Llansanffraid Glan Conwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## Gwaharddiad a Chyfyngiad

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### Cymhwyso

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Gorffennaf 2013

***S Hague***
**SHEENA HAGUE**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-Adran Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Gwahardd cerbydau dros dro

i) Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno wrth Gyffordd 18, Cyffordd Llandudno.

ii) Y darn hwnnw o gylchfan gylchredol y gefnffordd wrth Gyffordd 18, Cylchfan Cyffordd Llandudno, sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniadau mynediad ynys ganolog Ffordd 6G hyd at bwynt wrth y trwyniad ymadael i'r gylchfan o Ffordd 6G.

iii) Y darn hwnnw o gylchfan gylchredol y gefnffordd wrth Gyffordd 18, Cylchfan Cyffordd Llandudno, sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain yn glocwedd tua'r trwyniad wrth ddiwedd y ffordd ymadael tua'r dwyrain.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt wrth danbont Ffordd yr Orsaf, Mochdre hyd at bwynt wrth drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18, Cyffordd Llandudno.

ii) Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael wrth Gyffordd 19, Llansanffraid Glan Conwy.

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain, sy'n ymestyn o bwynt wrth ddechrau trwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, Morfa Conwy hyd at bwynt wrth ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18, Cyffordd Llandudno.

iv) Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, Morfa Conwy.

v) Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael wrth Gyffordd 18, Cyffordd Llandudno.